

## Newyddion Da

Gyda llawenydd y gallwn gyhoeddi fod Bet Jones wedi cael ei hethol i wasanaethu fel blaenor yng Nghapel Cefn Meiriadog. Diolchwn i Dduw amdani a dymunwn yn dda i Bet, ac i Eirian Jones a Meryl Pierce o Gapel Cefn Berain fydd yn cael eu hordeinio mewn oedfa gyhoeddus yng Nghapel Pentrecelyn nos Sadwrn, Gorffennaf 7fed am 7.00. Dymunwn fendith Duw ar y tair ohonynt.

## I ddod

- **CYFARFODYDD CYHOEDDUS CYMANFA GYFFREDINOL EGLWYS BRESBYTERAIDD CYMRU** yng Nghapel y Groes, Wrecsam, Gorffennaf 9fed-11eg.
  - Nos Lun (9fed) am 7.30 - Gwasanaeth Cymun a Choffâd. Pregethir gan y Parch. Ian Sims, Llanelli.
  - Dydd Mawrth (10fed) am 11.45 – Y Ddarlith Davies. Darlithydd: Y Parch Wyn Rhys Morris, Aberystwyth. Testun: Rhamantiaeth Hanesyddol a Gwleidyddiaeth Eglwysig yng Nghymru'r 19fed Ganrif.
  - Nos Fawrth (10fed) am 7.30 – Araith Ymadawol y Llywydd, y Parch. Brian Huw Jones, Prestatyn a Throsglwyddo'r Llywyddiaeth i'r Parch. Brian Matthews, Wrecsam.
  - Dydd Mercher (11eg) am 11.45 – Darlith y Gymdeithas Hanes. Darlithydd: Dr Gethin H. Matthews. Testun: *Angels, Doves and Minerva: Reading the memorials to the Great War in Welsh Presbyterian chapels.*
- **OEDFA I'R FRO** a chyfle i ddiolch i Gwion am ei gyfraniad arbennig i bob oed ym Mro Aled bore Sul, Gorffennaf 29ain am 10.30. Mwy o fanylion i ddilyn.
- **RHAI O GYRSIAU HAF COLEG Y BALA:**
  - ⇒ **Cwrs Ieuentid (i flynyddoedd 7 – 10):** Gorffennaf 30ain – Awst 3ydd
  - ⇒ **Anhrefn Awst (i blant 8-12 oed):** Awst 13eg – 16eg
  - ⇒ **Souled Out (15+):** Awst 18fed – 23ain

*Cofiwch fod £20 o ostyngiad i bob unigolyn mewn addysg sydd am fynd ar un o'r cyrsiau, diolch i haelioni Ymddiriedolaeth Robert Roberts ac Eglwys Bro Aled. Mae angen llenwi ffurflen i archebu lle, a'i hanfon ynghyd â blaendâl o £10 i Goleg y Bala mor fuan ag sydd bosibl.*
- **CYFARFOD GWOBRAWYO FFYDDLONIAID YR YSGOL SUL A'R FEDAL GEE** dydd Sadwrn, Medi 29ain yn Seilo, Eglwys Unedig Gymraeg Llandudno, am 2.00.



## Llais Bro Aled

### Dydd Sul, Gorffennaf 1<sup>af</sup>, 2018

Darlleniad y Dydd

Daniel 7:13-14

(BCND tud.811 / BCN tud.739)

[eglwysibroaled.com](http://eglwysibroaled.com)

[rhaglendorcas.com](http://rhaglendorcas.com)

[llanw.org](http://llanw.org)

[hyfforddiantdawn.com](http://hyfforddiantdawn.com)

Croeso i bawb ohonoch i'n hoedfaon ar draws y Fro heddiw. Ar ddechrau mis arall gweddiwn am fendith ac arweiniad Duw er mwyn i ni allu dod trwy Grist 'mewn hyder at orsedd gras er mwyn derbyn trugaredd a chael gras yn gymorth yn ei bryd.' (Hebreaid 4:16)

Pwy sydd wedi cael digon erbyn hyn? Wedi wythnos a mwy o dywydd crasboeth, gwn fod nifer o ffermwyr yn crefu am gawod o law ar gyfer y tir, ond faint ohonoch chi sy'n cytuno?! Does dim modd anwybyddu effaith y tywydd arnom nac ar weddill y greadigaeth o'n cwmpas. A dweud y gwir mae'n eithaf brawychus sylweddol mor ddibynnol ydym ar ddŵr, ac mor sydyn mae pethau'n dirywio mewn cyfnod estynedig o sychder a gwres. Mae'r effeithiau'n amlwg o danau mewn coedwigoedd i ffyrdd yn toddi, ond tybed ydym ni'n ymwybodol o beryglon sychder o fath gwahanol, sychder ysbrydol? Ydym ni'n gweld effaith anwybyddu neu bellhau oddi wrth yr Arglwydd ar ein bywydau? Fel y mae'r greadigaeth yn dibynnu ar ddŵr, mae'r Beibl yn ein hatgoffa bod dynion a merched yn fodau ysbrydol sydd angen bod mewn perthynas gyda'u Creawdwr. Ond mor hawdd yw mynd trwy fywyd fel pe bai hynny ddim yn wir, gan dybio y bydd popeth yn iawn dim ond i ni ddilyn ein trywydd ein hunain yn dawel heb godi gwrychyn pobl eraill. Nid syniad newydd yw hwn, a dyna pam mae cymaint o rybuddion yn y Beibl i'n gwarchod rhag gwneud niwed tragwyddol i ni'n hunain. Ystyriwch y geiriau cofiadwy yma gan Dduw yn Jeremeia 2:13: "Yn wir, gwnaeth fy mhobl ddau ddrwg: fe'm gadawsant i, ffynnon y dyfroedd byw, a chloddio iddynt eu hunain bydewau, pydewau toredig, na allant ddal dŵr." Ai felly y mae pethau arnom ni? Er bod pethau'n allanol yn edrych mewn trefn, mewn gwirionedd rydym fel petaem yn dyheu am ddŵr ond yn ceisio disychedu ein hunain trwy sugno mwd a baw! Rydym yn ymdrechu'n galed heb wneud unrhyw les i'n heneidiau gan ein bod yn troi at bethau fydd yn ein niweidio yn hytrach na dod at yr unig ffynnon fydd yn ein hiacháu a'n glanhau o'n holl aflendid.

Cofiwch i Iesu gyfeirio ato'i hun fel bara'r bywyd a rhoddwr y dŵr bywiol (Ioan 6:35 a 4:10). Dangosa hyn yn glir mai Ef yw'r un sy'n dod â gwir fywyd i ni, ac na all neb ohonom ffynnu na dwyn ffrwyth yn ysbrydol heb inni berthyn i Grist gan dderbyn o'r hyn y mae wedi ei ennill i'w bobl trwy farw ar y Groes. Diolchwn iddo am ei haelioni, a gofynnwn am gymorth ei Ysbryd i weld ein hangen a dod mewn ffydd at yr unig Achubwr.

**DILYNWCH NI:** @eglwysibroaled

*Rhodri*

**Darlleniad Wythnos Nesaf**

Luc 12:1-3 (BCND tud.80 / BCN tud.73)

## Cyhoeddiadau

### Y Fro

- Sul yma – 1<sup>af</sup> ➤ **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Huw Tan y Graig a bydd Rhodri yn pregethu.
- Mercher – 4<sup>ydd</sup> ➤ **Cyfarfod Gweddi'r Fro** yn Groes am 7.30.
- Iau – 5<sup>ed</sup> ➤ **CIC +** (Cyfle ar gyfer pobl ifanc bl. 10+ i dyfu fel Cristnogion) ym Mhreswylfa, Cefn Meiriadog am 5.00.
- Gwener – 6<sup>ed</sup> ➤ **C.I.C.** (Clwb Ieuenctid Cristnogol) ar gyfer pobl ifanc bl.7-9 yn Llansannan rhwng 7.30 a 9.00.
- Sadwrn – 7<sup>fed</sup> ➤ **Henaduriaeth Dyffryn Clwyd** yn cyfarfod yng Nghapel Pentrecelyn. Bydd eisteddiad o'r Henaduriaeth ac ymddiddan â'r blaenoriaid newydd **am 5.00**, ac oedfa gyhoeddus **am 7.00** yng nghwmni'r Parch. Olwen Williams, Llywydd y Sasiwn, pryd y bydd blaenoriaid yn cael eu llongyfarch am hir wasanaeth, a'r blaenoriaid newydd yn cael eu hordeinio.
- Sul nesaf – 8<sup>fed</sup> ➤ **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Eryl Davies a bydd Gwion yn pregethu.

### Llansannan a Nantglyn

- Sul yma – 1<sup>af</sup> ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa yn Llansannan am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Bydd Rhodri yn arwain oedfa yn Nantglyn am 2.00.
- Mercher – 4<sup>ydd</sup> ➤ Cynhelir Cinio Jangl yn Ysgol Bro Aled am 12.00. Enwau i Eifion (870656) **HEDDIW (1<sup>af</sup>)**, os gwelwch yn dda.
- Sul nesaf – 8<sup>fed</sup> ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa deulu yn Llansannan am 10.00 a bydd paned i ddilyn.
- Ni fydd oedfa yn Nantglyn.

### Saron a Pheniel

- Sul yma – 1<sup>af</sup> ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00.
- Sul nesaf – 8<sup>fed</sup> ➤ Bydd aelodau Peniel a Saron yn mynd ar bererindod – trefniadau i ddilyn.

## Cyhoeddiadau

### Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma – 1<sup>af</sup> ➤ Bydd Aneurin yn arwain oedfa yn Llanfair am 10.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.
- Sul nesaf – 8<sup>fed</sup> ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Llanfair am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.

### Henllan a Groes

- Sul yma – 1<sup>af</sup> ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yn Groes am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 2.00.
- Sul nesaf – 8<sup>fed</sup> ➤ Cynhelir Oedfa Thema yn Henllan am 10.00 a bydd Cyfarfod Gweddi yn Groes am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 2.00.

### Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma – 1<sup>af</sup> ➤ Bydd y Parch. Trefor Lewis yn arwain oedfa i'r daith yn Llanefydd am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.
- Sul nesaf – 8<sup>fed</sup> ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Berain am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg.

### Manylion Cyswllt

Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com 📞 01745 870522 📱 07814 660291  
Gwion – 📧 gwion@eglwysibroaled.com 📞 01745 582644 📱 07849 591163  
Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com 📞 01745 870632 📱 07900 627536

*Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher, os gwelwch yn dda.*

### Eglwysi Bro Aled

**Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.**